

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Benfro

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Benfro i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Benfro wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Sir Benfro wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Benfro yn parhau i ddarparu'n dda ar gyfer ei gymunedau lleol, gan ddangos effaith fuddiol y gwasanaeth ar fywydau pobl trwy ei astudiaethau achos a'r arolygon defnyddwyr. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau i fod yn uchel, ac mae oriau agor wedi cynyddu ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith. Mae rhywfaint o dystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad, gyda gostyngiadau pellach yn nifer y staff, a gostyngiad yn y ffigyrau defnydd ymhob maes, a'r gwasanaeth bellach yn hyn o beth ymysg y rhai sy'n perfformio isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai ailagor Llyfrgell y Sir yn Hwlfordd, yn dilyn ailddatblygu mawr, effeithio'n bositif ar lefelau defnydd yn y dyfodol. Mae'r buddsoddi yn y gwasanaeth wedi'i gynnal i raddau helaeth yn 2017-18, ac mae gan y gwasanaeth gynlluniau clir ar gyfer y dyfodol.

- Cyflwynodd Sir Benfro bedair astudiaeth achos yn dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth, ac mae'n parhau i gael marciau bodlonrwydd uchel yn ei arolygon defnyddwyr. Mae 95% o'r oedolion a holwyd yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi gostwng dros 70% yn 2017-18; deallir rhai o'r rhesymau dros hyn, ond mae angen gwaith i fynd i'r afael â'r dirywiad hwn.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi gostwng, gyda pherfformiad nawr yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Noda'r gwasanaeth fod hwn yn faes y mae angen iddo ganolbwyntio ei ymdrechion.
- Cafwyd gostyngiad drwyddi draw yn y defnydd yn gyffredinol, gyda'r perfformiad o gymharu bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru mewn nifer o feysydd. Dylai agor y Llyfrgell Sir newydd yn Hwlfordd ddylanwadu'n gadarnhaol ar ffigyrau yn y dyfodol.
- Ni chyflawnir y targedau cyffredinol ar gyfer derbyniadau, er bod lefelau buddsoddi yn y gronfa lyfrau wedi'u cadw, ac mae'r targed yn ymwneud â gwario ar adnoddau Cymraeg yn parhau i gael ei gyflawni.
- Mae lefelau'r staff wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, ac nid yw'r gwasanaeth bellach yn cyrraedd y targed ar gyfer nifer y staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth. Mae'r awdurdod wedi cynyddu ei ddefnydd o wirfoddolwyr, ac yn parhau i gefnogi'r tair llyfrgell gymunedol, sydd oll wedi'u cynnwys yn y datganiad blynyddol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Benfro yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn rhannol gyflawni hawl graidd 6 gan fod polisi'r gwasanaeth yn cynnwys tâl archebu i dalu am y broses o ganfod a chludo teitl i lyfrgell ddewisol y darlennydd. Er y nodir mai ffi weinyddol yw hon, yn hytrach na thâl am fenthyca'r eitem, mae'r polisi yn dal yn groes i'r egwyddor mynediad di-dâl sydd yn yr hawl, ac yn cosbi'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth trwy ei ganghennau llai o faint. Nodir nad oes gan Sir Benfro, megis lleiafrif o awdurdodau eraill, fynediad at gynllun rhanbarthol benthg rhwng llyfrgelloedd i leihau costau cysylltiedig.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Benfro yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni dau o'r dangosyddion.

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|-----------|------------------|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✓ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✓ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✓ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✓ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✓ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✓ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✓ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✓ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✓ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | x | Heb ei gyflawni |
| DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth | ✓ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✓ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd | ✓ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✓ | |

| | | |
|--|---|--------------------|
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✓ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✓ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✓ | |
| iv) Canran DPP | ✓ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✓ | Cyflawni'n llawn |

Cafwyd newid bychan ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gan nad yw'r targed ar gyfer staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth bellach yn cael ei gyflawni.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Benfro ei ddau arolwg defnyddwyr ym mis Mawrth 2018. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu wedi codi ychydig i 97%, gyda 95% o oedolion (91% yn 2016-17) yn nodi bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|--|-----|-------|------|----------|-------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 97% | 1/6 | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | 1/7 | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 96% | 13/17 | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Benfro bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Grŵp Darllen Gofalwyr – effaith grŵp Darllen yn Uchel bob wythnos wedi'i anelu at ofalwyr; gan gynnig lle i ymlacio a chymdeithasu, anogaeth i ddarllen mwy, a seibiant o'r rôl ofalu.
- Sesiynau Hanes Teulu – effaith sesiynau teuluol a gynigir mewn dwy lyfrgell, gydag un defnyddiwr wedi'i annog i ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur, a darganfod manteision ehangach y gwasanaeth llyfrgell.
- Gwirfoddoli – darparu llwybr i gyflogaeth; roedd Hyrwyddwr Digidol Gwirfoddol y gwasanaeth wedi datblygu ei ddiddordeb mewn cynhwysiant digidol, gan fynd ymlaen i

rôl cynorthwydd llyfrgell wrth gefn gyda'r gwasanaeth.

- Teuluoedd yn Defnyddio – effaith y gwasanaeth llyfrgell ar un teulu ifanc, a oedd wedi mynychu Amser Rhigwm â Babi, yna Dechrau'n Deg, gan feithrin cariad at lyfrau, a helpu eu mab i ddod yn ddarllenydd hyderus a hapus. Ac yntau bellach yn 5 oed, mae'n defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd, a hefyd yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft yn y llyfrgell.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Benfro ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf | 2016/17 | |
|--|-------|-------|----------|-------|---------|--------------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | 90% | 2/7 | 24% | 83% | 94% | 87% |
| c) iechyd a lles | 95% | 1/7 | 33% | 65% | 95% | 93% |
| d) lle diogel a chroesawgar | 99% | 2/7 | 90% | 98% | 100% | 98% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 88% | 7/7 | 88% | 91% | 98% | 86% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 99% | 3/7 | 93% | 99% | 100% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 91% | 3/6 | 74% | 86% | 94% | amherthnasol |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 97% | 4/7 | 93% | 97% | 99% | 96% |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 8.9 | 5/6 | 8.5 | 9.1 | 9.2 | 9.1 |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 12 | 19/22 | 10 | 32 | 238 | 43 |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 167 | 13/22 | 15 | 199 | 473 | 191 |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 82 | 22/22 | 82 | 228 | 684 | 107 |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 2,597 | 21/22 | 2,501 | 4,047 | 7,014 | 2,911 |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,052 | 7/22 | 243 | 866 | 2,211 | 1,065 |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 126 | 19/22 | 100 | 154 | 229 | 145 |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 44 | 17/22 | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen ^ | 12 | 4/22 | 5 | 9 | 14 | 12 |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 24% | 14/22 | 14% | 27% | 67% | 28% |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf | 2016/17 |
|---|---------|-------|--------|----------|---------|---------|
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 75 | 4/21 | 3 | 31 | 196 | 69 |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 3,024 | 3/21 | 40 | 1,346 | 11,939 | 2,654 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £11,034 | 14/21 | £7,047 | £11,915 | £17,771 | £11,060 |
| b) % ar staff | 49% | 19/21 | 44% | 63% | 75% | 50% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 13% | 11/21 | 4% | 13% | 25% | 13% |
| % ar offer ac adeiladau | 4% | 12/21 | 0% | 4% | 20% | 3% |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 34% | 2/21 | 0% | 18% | 37% | 34% |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £17,432 | 1/20 | £0 | £338 | £17,432 | £6,121 |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £2.00 | 8/21 | £1.24 | £1.82 | £2.41 | £2.94 |
| DA 16 Oriau agor [#] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | 1/21 | 0.00% | 0.02% | 1.28% | 0.00% |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.36% | 11/20 | 0.00% | 0.35% | 11.24% | 0.00% |

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

[^] am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

[#] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Sir Benfro ei arolygon defnyddwyr ym mis Mawrth 2018, ac mae'n bwriadu cynnal y rhain yn flynyddol fel rhan o'i ymgynghori rheolaidd â defnyddwyr. Ar y cyfan, mae nifer o feysydd wedi gwella o gymharu â chanlyniadau'r arolwg o'r fframwaith diwethaf, gyda 97% o oedolion yn dweud bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Mae'r lefelau bodlonrwydd ymhlith pobl ifanc wedi gostwng ychydig, ond maent yn dal i fod yn gyffredinol uchel. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn cynnig yr ystod gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer datblygiad unigol, ac fe gaiff iechyd a lles hefyd ei gefnogi'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi gostwng dros 70% yn 2017-18, gyda pherfformiad bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru. Caiff hyn ei briodoli'n rhannol i golli sesiynau Canolfan Byd Gwaith a oedd yn cyfrif am dros 25% o'r mynychwyr yn 2016-17, er bod arlwy'r rhaglen hyfforddiant a phrofiad anecdotaidd ynghylch y mynychwyr fel arall yn ddigon tebyg. Mae'r nifer sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gostwng ychydig, ac maent bellach yn is na'r canolrif.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Benfro yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, gan fod â 12 cangen (tair ohonynt dan reolaeth neu gefnogaeth y gymuned) sy'n gwasanaethu sir denau ei phoblogaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau wedi gostwng, gyda pherfformiad bellach yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth; mae'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr sydd â gofynion arbennig hefyd wedi'i chyfyngu i chwech o'r canghennau sydd ar agor am 10 awr neu fwy yn ystod yr wythnos.

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y problemau yn hyn o beth, ac yn nodi bod hwn yn faes y mae angen iddo ganolbwyntio ei ymdrechion. Cofnodwyd perfformiadau is hefyd yn erbyn pob maes arall yn ymwneud â defnyddio llyfrgell, gydag ymweliadau corfforol, benthyciadau llyfrau, aelodaeth llyfrgell a nifer y benthycwyr gweithredol oll bellach yn llawer is na lefel y canolrif. Nodir bod y llyfrgell yn Hwlfordd mewn safle dros dro ar hyn o bryd a bydd hyn, heb os, wedi cael effaith ar bob maes defnydd.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Er bod y gyllideb deunyddiau wedi cynyddu ychydig yn 2017-18, mae nifer y derbyniadau wedi gostwng, gan adlewyrchu nifer uwch yr e-adnoddau a dderbyniwyd yn 2016-17. Nid yw'r un o'r targedau derbyniadau cyffredinol wedi'u cyflawni yma, er bod y gwasanaeth yn cyrraedd y targed ar gyfer canran y gyllideb a wariwyd ar ddeunyddiau Cymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd cymesur mewn buddsoddiad ar hyn ac ar adnoddau plant, gyda phrynu stoc newydd wrth baratoi at ailagor y Llyfrgell Sir newydd yn 2018-19.

Cadwyd y ddarpariaeth cyfrifiaduron ar lefelau 2016-17, ac mae'n parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, er bod y lefelau defnydd arnynt wedi gostwng ychydig, yn unol â'r duedd gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau hefyd wedi gostwng, er bod y targedau yn y cyswllt hwn yn dal i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, a lefelau staff proffesiynol bellach yn is na lefel y targed, yn sgil ymddeoliad nifer fechan o staff uwch heb benodi staff newydd ar ôl ailstrwythuro staff. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion yn ymwneud â chyfran amser staff sy'n cael ei dreulio ar ddatblygiad proffesiynol. Mae Sir Benfro wedi cynyddu ymhellach ei ddefnydd o wirfoddolwyr, gyda 75 o unigolion yn rhoi cyfartaledd o 40 awr yr un, a dyma un o'r cyfraniadau uchaf yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys ffigyrau ar gyfer y tri gwasanaeth a reolir neu a gefnogir gan y gymuned.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2016-17, gyda chynnydd amlwg mewn buddsoddiad cyfalaf, yn sgil datblygiad y Llyfrgell Sir newydd yn Hwlfordd. Mae Sir Benfro hefyd yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer cyfanswm yr oriau agor sydd â staff yn y llyfrgell fesul pen y boblogaeth, a'r oriau ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigyrau yn hyn o beth, ac ar gyfer staffio, yn cynnwys y gwasanaeth astudiaethau lleol, sydd wedi'i leoli yn Archifdy'r Sir.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni o dan ei Strategaeth Llyfrgell 2015-2020, a honno'n alinio â strategaeth 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau'r cyngor. Adroddir ar gyfraniadau o dan dri phennawd: Creu cymunedau cryfach ac iachach, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau iechyd a lles, a lleihau unigrwydd cymdeithasol; Lleihau tlodi, gan gefnogi gwirfoddoli, gwella sgiliau TG a bywyd; a Darparu rhagoriaeth yn effeithlon, drwy greu canolfannau cymunedol, a phrosiect blaenllaw Llyfrgell y Sir.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Sir Benfro am agor Oriol a Llyfrgell Sir newydd yn Hwlfordd, a chynlluniau ar gyfer datblygu dwy ganolfan gymunedol newydd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod mewn cysylltiad â Chyngor Tref Penfro ynghylch dyfodol Llyfrgell Penfro, ac mae gwaith hefyd ar y gweill i baratoi at drosglwyddo i system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Benfro yn parhau i ddarparu'n dda ar gyfer ei gymunedau lleol, gan ddangos effaith fuddiol y gwasanaeth ar fywydau pobl trwy ei astudiaethau achos a'r arolygon defnyddwyr. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau i fod yn uchel, ac mae oriau agor wedi cynyddu ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith. Mae rhywfaint o dystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad, gyda gostyngiadau pellach yn nifer y staff, a gostyngiad yn y ffigyrau defnydd ymhob maes, a'r gwasanaeth bellach yn hyn o beth ymysg y rhai sy'n perfformio isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai ailagor Llyfrgell y Sir yn Hwlfordd, yn dilyn ailddatblygu mawr, effeithio'n bositif ar lefelau defnydd yn y dyfodol. Mae'r buddsoddi yn y gwasanaeth wedi'i gynnal i raddau helaeth yn 2017-18, ac mae gan y gwasanaeth gynlluniau clir ar gyfer y dyfodol.